**ATODIAD A**

# CYNNWYS


| ADRAN | TEITL | TUDALEN |
|---|---|---|
| **1.** | Cyflwyniad | **1** |
| **2.** | Strategaeth y Gymraeg | **1** |
| **3.** | Y Cyd-destun Deddfwriaethol | **2** |
| **4.** | Y Gymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili | **5** |
| **5.** | Sefydliadau Partner | **7** |
| **6.** | Sut y datblygwyd y Cynllun Gweithredu | **14** |
| **7.** | Monitro’r Strategaeth | **15** |
| **7.** | Cynllun Gweithredu: | **16** |
| | Maes Strategol 1 – Y Teulu | **16** |
| | Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc | **18** |
| | Maes Strategol 3 – Cymunedau | **20** |
| | Maes Strategol 4 – Gwasanaethau Cymraeg | **22** |
| | Maes Strategol 5 – Y Gweithle | **24** |
| | Maes Strategol 6 – Seilwaith (Polisïau ac Arferion) | **26** |
| **Atodiad B** | Proffil Iaith Gymraeg Bwrdeistref Sirol | **28** |
| **Atodiad C** | Adroddiad Ymgynghori Caerffili | **79** |
| **Atodiad 1-4** | Manylion gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori | **89** |


## CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wybod mwy am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg, cysylltwch ag:


Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi, Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori
Ffôn: 01443 864404 / e-bost: cullima@caerffili.gov.uk


## FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r strategaeth hon hefyd ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais drwy'r manylion cyswllt uchod.

**Paratowyd yn unol â gofynion Safon y Gymraeg 145 o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

**Mae'r strategaeth hon ar gael yn Saesneg**
**This strategy is available in English**

DRAFT

DRAFT

## 1. Cyflwyniad

Dyma ail Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n nodi camau gweithredu ar sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol drwy weithio mewn partneriaeth. Gweler Adran 6 am y camau gweithredu manwl ar sut y byddwn yn cyflawni hyn.

Mae cyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu'n drwm ar waith partneriaeth allweddol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn heriol a bydd yn effeithio ar gyflawni'r strategaeth hon, ac ni all un sefydliad yn unig gyflawni'r strategaeth. Felly, mae gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid presennol a chreu cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau newydd o bob sector yn hanfodol. Cydnabyddir gan yr holl bartneriaid presennol fod llwyddiant y strategaeth yn dibynnu'n fawr ar gydweithio â phob sector o'r gymuned. Er mwyn cyfeirio, rhestrir yr holl bartneriaid presennol yn y Cynllun Gweithredu yn Adran 6.

Nid tasg hawdd mo datblygu strategaeth iaith hirdymor, gan y gall llawer o ffactorau fel amgylchiadau cymdeithasol a symud poblogaeth wneud yr wybodaeth berthnasol yn hen ffasiwn yn gyflym iawn.

Mae Menter Iaith Caerffili wedi paratoi Proffil Iaith 2021 y fwrdeistref sirol (gweler Adran 2 ac Atodiad B) a thrwy weithio mewn partneriaeth â nhw a defnyddio hwn fel man cychwyn, rydym yn hyderus mai'r data am y Gymraeg yw'r gorau sydd ar gael er mwyn i ni ddatblygu'r strategaeth bum mlynedd hon.

## 2. Strategaeth y Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg, yn benodol Safon 145 o dan y set gyntaf o Reoliadau’r Gymraeg, yn gosod y gofyniad canlynol ar y cyngor:

**Safon 145:**
Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth bum mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill) –

a) targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw, a
b) datganiad sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu i gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Y dasg felly yw datblygu strategaeth sy'n adeiladu ar ein llwyddiannau yn y gorffennol, yn diwallu anghenion y siaradwyr a'r dysgwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol, yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ac yn bwysicaf oll, yn ystyrlon, yn briodol ac yn gyraeddadwy i bawb sy'n gysylltiedig.

## 3. Cyd-destun Deddfwriaethol

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**
Ei nod yw:

Darparu mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.

Yr hyn a oedd yn allweddol i'r mesur hwn oedd creu rôl Comisiynydd annibynnol. Prif nodau'r Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, sy'n seiliedig ar ddwy egwyddor:

- Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol o gwbl na'r Saesneg
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny

**Safonau'r Gymraeg**
Yn rhan o'r mesur, rôl y Comisiynydd yw datblygu, gweithredu a monitro cyfres o Safonau'r Gymraeg a fydd yn ei thro yn:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau yn Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd a wna pobl o wasanaethau Cymraeg
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- Sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau
- Mynnu bod angen strategaeth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, sef Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd

**Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**
Mae'r strategaeth uchelgeisiol hon yn galw am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, mae Cymraeg 2050 yn seiliedig ar dair thema strategol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Bydd cyflawni ein Strategaeth y Gymraeg bum mlynedd yn cyfrannu at gyflawni'r targed hwn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. O ganlyniad i'r Ddeddf, mae'n rhaid i gyfanswm o 44 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, feddwl mwy am y tymor hir yn y dyfodol, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau lleol a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Un o'r saith nod Llesiant a restrir yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg ffynnu".

DRAFT

Mae pob un o’r saith nod llesiant yn rhan allweddol o sut y dylai Cymru edrych, ac er bod y saith nod yn bwysig ynddynt eu hunain, ni ddylid edrych arnynt yn unigol oherwydd eu bod i gyd yn gysylltiedig â’i gilydd.  Os edrychwn ar y saith nod o safbwynt y Gymraeg gallwn weld sut mae’r Gymraeg yn rhan o, ac yn chwarae rhan ym mhob agwedd o addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, yr economi a mwy.

Roedd canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2018 o’r enw **Safonau ynghylch hybu’r Gymraeg**, yn cynnwys yr enghraifft ganlynol sy’n dangos sut mae’r saith nod llesiant yn berthnasol i’r Gymraeg.




**Mwy na Geiriau**
'Mwy na Geiriau' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal pobl a bod cynnig gwasanaethau Cymraeg i bobl mor bwysig.

Mae sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol i unigolion yn rhywbeth sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.  Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddynt orfod gofyn amdanynt fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Gweithredol'.

## <u>Rhanbarthol</u>

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**
Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn dod â chyrff cyhoeddus at ei gilydd i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Mae’n gyfrifol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Llesiant Lleol newydd.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfarfod cyntaf BGC Gwent ar 1 Hydref 2021 a bydd yn darparu'r rôl gydgysylltu am y ddwy flynedd gyntaf nes i bartner arall o BGC Gwent gymryd yr awenau.

Rydym wedi datblygu gwefan BGC Gwent newydd a gallwch gael ati **yma**
**Lleol**

**Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2018 - 2023**
Mae ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ein chwe Amcan Llesiant. Dyma nhw:

- **Amcan 1** - Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- **Amcan 2** - Galluogi cyflogaeth
- **Amcan 3** - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella lles pobl
- **Amcan 4** - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd
- **Amcan 5** - Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,
- **Amcan 6** - Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

Mae gennym ddyletswydd statudol i bennu Amcanion Llesiant gan ddefnyddio'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid peth newydd mo pennu amcanion, a ninnau wedi gosod blaenoriaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd ers amser maith; fodd bynnag **nawr rydym yn gosod amcanion dros fwy o** gyfnod cynllunio pum mlynedd.

**Strategaeth Trawsnewid #TîmCaerffili, Gwell Gyda'n Gilydd**
Mae bwrdeistref sirol Caerffili ar daith o drawsnewid. Mae angen i ni drawsnewid y ffordd rydym yn gwneud pethau er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau newidiol ein cymuned ac ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sy'n ein hwynebu.

Cymeradwywyd strategaeth newydd bwysig o'r enw '**#TîmCaerffili – Gwell Gyda'n Gilydd**' gan gabinet y cyngor ac mae'n nodi'r ffordd y byddwn yn cyflawni'r newidiadau hyn dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Ei nod yw trawsnewid y ffordd yr ydym wedi darparu gwasanaethau o'r blaen. Bydd yn archwilio sut y caiff gwasanaethau eu blaenoriaethu. Sut y gellir eu gwneud yn fwy effeithlon. Archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer mwy o ffocws ar gwsmeriaid a darparu digidol, ystyried modelau darparu amgen a chwilio am gyfleoedd masnachol.

Y canlyniadau rydym yn anelu at eu cyflawni:

- Cael perthynas waith gref â'n cymunedau a'n partneriaid i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfunol i sicrhau bwrdeistref sirol gydnerth ar gyfer y dyfodol.
- Ymgorffori model gweithredu newydd a fydd yn annog dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau ac yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.
- Helpu i gau'r bwlch rhwng tlodi a ffyniant drwy wella cyrhaeddiad addysgol ac ysgogi'r economi leol i greu swyddi o ansawdd uchel

**Cynllun 10 Mlynedd Medi 2022 – Medi 2032 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
Gweledigaeth ein cynllun yw parhau i 'Godi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel.'

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**
Er mwyn cryfhau'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg ac i ddiwallu anghenion poblogaeth Gymraeg y fwrdeistref sirol, mae'r Gymraeg hefyd wedi'i chynnwys gan y cyngor o fewn ei drydydd **Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Amcan Cydraddoldeb Strategol 5 - Y Gymraeg**.

# 4. Y Gymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili

- Yng nghyfrifiad 2011, 19,251 neu 11.2% oedd nifer y siaradwyr Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili, ac mae'r data hwn yn destun newid yn dilyn cyfrifiad 2021

- Ar 31 Rhagfyr 2020, yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, nifer y bobl a allai siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol oedd 42,700 neu 24.3%[1]

- Ar 31 Rhagfyr 2020, yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, gallai 19.9% o'r boblogaeth ddarllen Cymraeg, gallai 18.4% ysgrifennu Cymraeg, a gallai 27.2% ddeall Cymraeg llafar.[2]

- Ar 31 Rhagfyr 2020, amlder nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili yn ddyddiol oedd 10.2%[3]

- Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae nifer y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi amrywio o 72.29% i 99.43%[4]

- O'r boblogaeth ysgol gynradd gyfan mae 17.22% yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a thua 97.75% o'r rhain yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg[5]

- Roedd 1,602 o bobl ym mwrdeistref sirol Caerffili a gofrestrodd ar gyrsiau Cymraeg yn ystod 2017–2021 drwy Dysgu Cymraeg Gwent[6]

Rhaid i'r llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth fod yn broffil iaith gyfredol, er mwyn gallu pennu cynnydd targed cyraeddadwy mewn siaradwyr Cymraeg sy'n ofynnol o dan Safon y Gymraeg 145. Proffil Iaith Menter Iaith Caerffili o fis Ionawr 2021 yw'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r sir ac mae'n cynnwys y cyd-destun deddfwriaethol cenedlaethol yn ogystal â chysylltiadau â chynlluniau a strategaethau presennol.

[1] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[2] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[3] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Amlder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)
[4] Ffynhonnell: Mewnol (CSCA)
[5] Ffynhonnell: Mewnol (CSCA)
[6] Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg Gwent

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gan fwrdeistref sirol Caerffili 19,251 o siaradwyr Cymraeg (11.2% o'r boblogaeth) ac yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2016, roedd 17.1% o boblogaeth yr ysgolion cynradd a 15.9% o boblogaeth yr ysgolion uwchradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg o fewn CBSC ers ei sefydlu ym 1996.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022, nifer y disgyblion a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg oedd 2,781, sy'n cynnwys meithrinfa. Yn ystod y cyfnod hwn o 20 mlynedd, sefydlwyd tair ysgol ychwanegol, gyda 7 o'r 8 ysgol wreiddiol naill ai'n cael eu disodli neu'n cael eu haddasu / estyn i gynyddu capasiti.

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cynyddu tua 75% o 900 i 1600 o ddisgyblion. Symudodd yr ysgol i safle newydd yn 2002 a datblygodd ymhellach i ail safle (Y Gwyndy) yn 2013. Capasiti posibl y ddau safle ar y cyd yw 2,348 y disgwylir iddo gael ei gyrraedd tua 2025.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) CBSC 2017-2020 yn cynnig y saith canlyniad allweddol canlynol:

| | |
|---|---|
| Canlyniad 1: | Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Canlyniad 2: | Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd |
| Canlyniad 3: | Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Canlyniad 4: | Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith |
| Canlyniad 5: | Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg |
| Canlyniad 6: | Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Canlyniad 7: | Cynllunio'r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus |

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg - o ddatblygu'r cwricwlwm a chyrsiau i adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu.

Sefydlwyd y Ganolfan mewn ymateb i'r adroddiad, *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*. Mae'r Ganolfan yn gweithredu hyd fraich oddi wrth Lywodraeth Cymru, sy'n ei hariannu, ac mae'n rhan o grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Rhoi dysgwyr yn gyntaf yw prif flaenoriaeth y Ganolfan ac mae'r gwerthoedd brand canlynol wrth wraidd ei holl weithgareddau.

Y canlyniadau craidd a bennwyd ar gyfer y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru yw:

- Bod yn sefydliad gweladwy sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg.
- Darparu arweinyddiaeth i ddarparwyr cyrsiau'r Ganolfan.
- Codi safonau mewn addysgu a dysgu yn y sector Dysgu Cymraeg.
- Datblygu cwricwlwm cenedlaethol priodol, diddorol o ansawdd uchel, a chynhyrchu adnoddau sy'n addas ar gyfer ystod o ddysgwyr.

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn cynnwys pum amcan allweddol:

1. Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau deniadol ac addas i ddysgwyr, gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf.
2. Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau lle gall dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.
3. Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cyrsiau i gynnig gwasanaeth rhagoriaeth.
4. Codi proffil y sector a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu Cymraeg.
5. Sefydlu a chynnal gweithdrefnau cymorth gwasanaeth.

Roedd Strategaeth y Gymraeg presennol y cyngor yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 3%.  Pan ddaw'r strategaeth bresennol i ben, caiff ei hadolygu, ac o ddefnyddio data sydd ar gael i ni fyddwn yn gallu penderfynu a yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd ai peidio.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddull cadarnhaol o helpu i gyflawni'r nod; fodd bynnag, rydym wedi dewis targed realistig yr ydym yn anelu at ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf.  Bydd hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn disgwyl y bydd galluoedd Cymraeg ein poblogaeth a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg.

**Mae'r strategaeth hon felly'n cynnig cynnydd targed o 4% o leiaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2022 a 2027.**

**Adolygir y targed hwn pan fydd data Cyfrifiad 2021 wedi'i gyhoeddi.**

## 5. Sefydliadau Partner

Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth hon, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid presennol a phartneriaid newydd ledled y sir.  Drwy gydweithio, byddwn mewn sefyllfa well i sicrhau bod ein gweledigaeth o fewn y strategaeth hon yn cael ei chyflawni.

Mae'r partneriaid allweddol canlynol yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y sir.

**<u>Menter Iaith Sir Caerffili</u>**
Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn fudiad cymunedol, gwirfoddol a blaenllaw sy'n hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws cymunedau Sir Caerffili.

Prif nôd Menter Iaith Sir Caerffili yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau Sir Caerffili. Er mwyn gwireddu hwn byddwn yn datblygu ac yn darparu trawstoriad o wasanaethau a chyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg lleol er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.  Byddwn yn ymgynghori'n gyson â thrigolion lleol er mwyn datblygu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sy'n hygyrch, perthnasol ac o'r safon uchaf. Rydym am weld twf yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau'r Sir a hynny o fewn amrywiaeth o feysydd.  Wrth wraidd ein prif nod mae'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.

DRAFT

Prif amcanion ein gwaith:

- Arwain cyd-gynllunio ar gyfer y Gymraeg ar lefel Sirol
- Datblygu a darparu gwasanaethau a chyfleoedd o safon ac ansawdd uchel
- Dylanwadu er lles y Gymraeg ar lefel Sirol a chynrychioli llais siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg yn Sir Caerffili
- Ymchwilio i gyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau sy'n hunangynhaliol
- Cynnal a datblygu sefydliad sy'n gweithredu'n effeithiol, gyda llywodraethant cryf ac yn ystyried a diogelu lles ei staff a'i gwirfoddolwyr

Erbyn hyn, mae'r Fenter wedi bod yn gweithredu am dros 21 o flynyddoedd ac yn cyflogi tua 70 aelod o staff ar draws ei gwasanaethau.

Rheolir Menter Iaith Sir Caerffili gan Fwrdd Rheoli profiadol ac uchelgeisiol o wirfoddolwyr. Daw'r aelodau o gymunedau ar draws Sir Caerffili ac mae eu harweiniad a'u mewnbwn i ddatblygiad a rheolaeth effeithiol ein gwaith yn allweddol.

Mae'r cyfraniad sylweddol hwn gan wirfoddolwyr yn sicrhau taw gofynion pobl leol sy'n llywio ein gwaith. Yn ogystal, rydym yn recriwtio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr ar draws ein gwasanaethau a'n gweithgareddau fel bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n sylweddol ym mhob elfen o'n gwaith. Rydym yn recriwtio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr yn barhaol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eu mewnbwn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ond hefyd er mwyn cynnig cyfleoedd ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl leol.

**<u>Urdd Gobaith Cymru</u>**

Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, drwy gyfrwng y Gymraeg, i bobl ifanc Cymru ddatblygu fel unigolion crwn; i'w cefnogi hefyd i chwarae rhan adeiladol mewn cymdeithas drwy ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol. Mae'r Urdd yn cyflawni hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili mae'r Urdd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion Ail Iaith, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Urdd yn trefnu cystadlaethau chwaraeon, gweithgareddau preswyl yn eu canolfannau, Jamborïau a'r Eisteddfod flynyddol.

Yn ogystal â hyn, mae'r Urdd yn cyflogi Swyddog Ieuenctid yng Nghaerffili ar y cyd â Menter Iaith Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r swyddog yn datblygu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc y sir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r swyddog yn datblygu'r cyfleoedd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys clybiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, gwibdeithiau, tripiau dramor, cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd achredu i bobl ifanc.

Mae'r Urdd hefyd yn cyflogi swyddog chwaraeon sy'n helpu i greu cyfleoedd i bobl ifanc a'u teuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys clybiau ar ôl ysgol, clybiau cymunedol a digwyddiadau untro. Er mwyn helpu i ddatblygu hyfforddwyr, darperir cyrsiau chwaraeon drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r Urdd yn darparu blwyddyn o brentisiaeth bob mis Medi i un person rhwng 18 a 24 oed. Mae'r prentis yn gweithio gyda'r swyddog wrth hefyd gwblhau NVQ mewn Arwain Gweithgareddau.

Mae'r gweithgareddau amrywiol hyn yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghaerffili ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i addysg ac o fewn eu cymunedau.

## Cymraeg i Blant

Prif nod y cynllun Cymraeg i Blant/Cymraeg for Kids a reolir gan Fudiad Meithrin yw cynyddu'r nifer o blant oedran meithrin sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae hi'n rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni newydd ar fuddion bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno Cymraeg yn y cartref mor gynnar â phosib a rhannu gwybodaeth leol am ofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae swyddog lleol Cymraeg i Blant yn rhedeg sesiynau tylino babi, ioga i fabis a sesiynau arwyddo stori a chân trwy gyfrwng y Gymraeg yn wythnosol i rieni a babanod ar draws Caerffili. Rhedir hefyd cyrsiau ar-lein fel Fi a fy mabi i dargedu'r fam feichiog a'i phartner a sesiynau Ymarfer dy Gymraeg i godi hyder siaradwyr newydd neu rieni nad sydd wedi defnyddio'r Gymraeg ers dyddiau ysgol.

Mae'r swyddog yn gweithio'n agos gyda thimoedd Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd lleol er mwyn sicrhau ei bod nhw yn ymwybodol o'r daith ddwyieithog sydd ar gael i rieni fel ei bod yn medru cyfeirio rhieni draw i grwpiau Cymraeg i Blant, Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin.

## Fforwm Iaith Gymraeg

Mae Menter Iaith Caerffili yn cydlynu ac yn arwain Fforwm o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Nod y Fforwm yw rhoi cyfle i weithio mewn partneriaeth, rhannu arfer da a datblygu llais lleol cryf ar ran y Gymraeg. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob chwarter a thrafodir amrywiaeth o bynciau a materion yn ystod cyfarfodydd gan gynnwys pwysigrwydd gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Y gobaith yw y bydd y Fforwm yn parhau i ddatblygu a rhoi cyfle i gyfleu llais cryf a dylanwadol i gefnogi'r Gymraeg yn lleol yn ogystal â gweithio ar lefel strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon.

## Coleg y Cymoedd

Mae Coleg y Cymoedd yn goleg addysg bellach gyda phedwar campws. Lleolir un o'r campysau hyn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (yn Ystrad Mynach). Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn. Mae'r Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau llawn amser a rhan amser o Lefel Mynediad i Radd mewn dros 15 o feysydd cwricwlwm. Fel coleg sydd wedi'i leoli yng Nghymru, mae Coleg y Cymoedd yn credu ei bod hi'n bwysig dathlu ein treftadaeth falch a bod yn rhagweithiol wrth helpu ei ddysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg - p'un a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddim ond yn gwybod tipyn bach.

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Goleg y Cymoedd rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Coleg hyrwyddo'r ffaith fod gan fyfyrwyr yr hawl gael gwasanaethau a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn eu hannog i fanteisio ar yr hawliau hyn yn ystod eu hamser yn y Coleg.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg 2018-2021 Coleg y Cymoedd yn llywio ei weithgarwch o ran y Gymraeg. Yn unol â'r Cynllun Strategol hwn cynigir dosbarth ailsefyll TGAU Mathemateg cyfrwng-Cymraeg; grwpiau Bagloriaeth Cymru ddwyieithog ar lefel Uwch Gyfrannol a Safon Uwch drwy'r Ganolfan Safon Uwch; Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y Gymraeg (Ail iaith); unedau gofal cwsmeriaid Cymraeg o'r enw 'Cymraeg Gwaith' ar draws pob maes galwedigaethol. Mae'r rhain ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg fel ei gilydd. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg

DRAFT

Cenedlaethol i gynyddu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Nod y Coleg yw datblygu'r arlwy dros y blynyddoedd i ddod.

Hefyd, cynigir y cyfle i staff y Coleg ddatblygu a chynnal eu sgiliau Cymraeg yn unol â Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Coleg. Mae'r Coleg yn cydweithio a Cholegau Cymru; y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ac mae rhwydweithiau mewnol i annog staff i sgwrsio ac ymarfer eu Cymraeg a defnyddio'u sgiliau yn eu gwaith.

O ran y Cynllun Strategol hwn, mae'r Coleg wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr y tu allan i'r dosbarth i gadw a datblygu ei sgiliau Cymraeg. Mae cyfleoedd i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith mewn ffordd anffurfiol drwy fynychu clwb gweithgareddau cyfrwng-Cymraeg, sef 'Clwb Dreigiau'r Cymoedd' ac mae cyfleoedd i ddysgwyr sy'n dymuno dysgu sut i siarad ychydig o Gymraeg sylfaenol fynychu sesiynau ar-lein o'r enw 'Dragon Bites'. Hefyd, mae cyfle i siaradwyr Cymraeg gael eu cyflogi fel Llysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Coleg yn cynnig calendr llawn o ddigwyddiadau sy'n dathlu Cymru a'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Mae Coleg y Cymoedd yn awyddus i barhau i gydweithio gyda phartneriaid megis Fforwm Iaith Sir Gaerffili, Menter Iaith Caerffili, ysgolion Cymraeg y sir; yr Urdd; y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg i barhau i gynnal a datblygu ei ddarpariaeth a'i wasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.

**<u>Coleg Gwent</u>**

Mae'r pum awdurdod lleol yn ardal dalgylch y Coleg ymhlith y rheini â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yng Nghyfrifiad 2011, roedd 11% o boblogaeth Caerffili'n gallu siarad Cymraeg, tra bod y canrannau yn 10% yn Nhorfaen, 9% yng Nghasnewydd, 8% ym Mlaenau Gwent a 10% yn Sir Fynwy. Yn erbyn y cefndir hwn o lefelau isel o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg y mae'r Coleg yn ceisio datblygu ei ddarpariaeth iaith Gymraeg.

Ym mis Medi 2020, teimlai 79 (6.8%) o staff Coleg Gwent fod ganddynt sgiliau Cymraeg uwch neu rugl (mae'r ffigurau'n cynnwys staff Cymraeg i Oedolion). Gofynnir i bob aelod newydd o'r staff asesu ei sgiliau Cymraeg a chynigir cyrsiau Cymraeg i Oedolion am ddim yn ystod oriau gwaith i bob aelod o'r staff. Yn gynyddol, mae'r coleg yn penodi staff newydd ar y sail y gallant ymrwymo i ddilyn y rhaglen Cymraeg Gwaith o fewn 6 wythnos o ddechrau eu cyflogaeth.

Mae data o'r ffurflenni cofrestru ar gyfer 2020/21 yn dangos bod 312 o ddysgwyr yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg a/neu eu bod wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Dim ond 0.4% o ddysgwyr a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth. Caiff nifer y dysgwyr sy'n dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ei fesur a chaiff y nifer sy'n mynd ymlaen i astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg ei nodi fel rhan o arolwg i wella ein dealltwriaeth o lefel y sgiliau iaith Gymraeg ymysg dysgwyr.

Mae Strategaeth Dwyieithrwydd Coleg Gwent (2019-2024) yn ymateb ystyrlon ac integredig sy'n nodi sut y bydd Coleg Gwent yn ymateb i'w gyfrifoldebau a nodwyd yn Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, strategaeth Colegau Cymru, Normaleiddio Dwyieithrwydd: Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach 2016-2021 a strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Bydd Fframwaith Arolygu Estyn yn parhau i ganolbwyntio ar ddwyieithrwydd. Mae Estyn yn ymrwymedig i'r farn y dylai dysgwyr gael yr hawl i gael cyfleoedd galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn 16 oed a bydd yn rhoi sylw manwl i gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a chyfraddau cynnydd o ran y Gymraeg. Mae disgwyliad hefyd y bydd pob dysgwr, ni waeth faint o allu sydd ganddo i siarad Cymraeg, yn cael profiad sy'n cynnwys elfennau o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg yn ei raglenni astudio.

Mae Coleg Gwent wedi bod yn gweithredu dan Safonau'r Gymraeg ers 1 Ebrill 2018. Dyma ddibenion Safonau'r Gymraeg:

- sicrhau eglurder i sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg
- sicrhau eglurder i siaradwyr Cymraeg ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella'r ansawdd i ddefnyddwyr

Mae Safonau'r Gymraeg yn set gynhwysfawr o reoliadau sy'n cwmpasu popeth rydym yn ei wneud a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i'r cyhoedd, gyda'r nod o sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg a sicrhau bod dwyieithrwydd yn un o'r blaenoriaethau pennaf.

**Gweledigaeth:**
Bydd Coleg Gwent yn parhau i fod yn bartner llawn a rhagweithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu system addysg a hyfforddiant ôl-14 sy'n darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr astudio a dysgu drwy gyfrwng eu dewis iaith, a thrwy hynny eu paratoi ar gyfer gwaith a bywyd mewn gwlad ddwyieithog.

**Nodau Strategol:**
Dylanwadir ar Nodau Strategol y strategaeth hon gan y rhai a nodir yn Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth
Cymru, strategaeth Colegau Cymru, sef Normaleiddio Dwyieithrwydd: Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach 2016-2021, Safonau'r Gymraeg a strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Mae'r amcanion strategol fel a ganlyn:
1. Canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth a nodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu darpariaeth ddwyieithog a chyfrannu at Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg pob awdurdod lleol y mae'r Coleg yn ei wasanaethu.
2. Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050: gan weithio gydag ysgolion, darparwyr eraill a chyflogwyr.
3. Cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r Llwybrau Dysgu 14-19.
4. Parhau i ymateb a chefnogi gofynion dysgu ein dysgwyr dwyieithog a chynyddu cyfleoedd i bob dysgwr wella neu ddatblygu ei sgiliau Cymraeg.
5. Sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i gyrsiau ôl-16 ac ôl-18/opsiynau ar gyfer cyrsiau sy'n cynnal ac yn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg; galluogi dysgwyr i gael gafael ar y ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion.
6. Recriwtio staff Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth galwedigaethol a meysydd lle ceir nifer sylweddol o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith.
7. Darparu rhaglen datblygu staff; ymgorffori'r dimensiwn Cymreig a sgiliau Cymraeg.

DRAFT

8. Parhau i ymgorffori'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn seilwaith a pholisïau'r Coleg.

Caiff y broses o gyflawni'r nodau strategol hyn ei chynyddu a'i monitro gan Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg.

**Mudiad Meithrin**

Mudiad Methrin Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin a'r prif ddarparwr o ofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol yng Nghymru. Ein hamcan yw rhoi'r cyfle i bob plentyn yng Nghymru i elwa o brofiadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cyflogi 200 o staff yn genedlaethol ac mae 1500 o staff yn gweithio mewn Cylchoedd Meithrin ar draws Cymru. Yng Nghaerffili, mae gan Mudiad Meithrin 10 o Gylchoedd Meithrin a 2 o Gylchoedd Ti a Fi (grwpiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhieni a phlant ifanc). Mae Cylch Meithrin newydd o dan gynllun Sefydlu a Symud yn agor yn Ionawr 2022. Maent yn credu bod y gallu i siarad Cymraeg yn fantais i bob plentyn a bod trosglwyddo o'n grwpiau i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn allweddol. Mae'r cylchoedd yng Nghaerffili yn derbyn arweiniad a chyngor ymarferol i'w staff, gwirfoddolwyr a'u rhieni o'n Swyddogion Cefnogi penodol. Mae Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Menter Iaith Caerffili.

Defnyddir y dull trochi iaith Croesi'r Bont i gyflwyno'r Gymraeg i blant ifanc sy'n mynychu ein Cylchoedd Meithrin. Cynhelir yr holl weithgareddau chwarae drwy'r Gymraeg er mwyn annog plant i gyfathrebu gydag oedolion a'u ffrindiau drwy gyfrwng yr iaith. Yn yr awyrgylch hwn, gall plant ddatblygu eu sgiliau ieithyddol drwy gwricwlwm cyflawn sy'n cynnwys cyfleoedd chwarae strwythuredig a rhydd, ynghyd â chynllun trochi iaith.

Trwy gynllun Clwb Cwtsh mae Mudiad Meithrin yn cynnig cwrs blasu Cymraeg rhad ac am ddim sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith plant yn y cartref. clwbcwtsh@meithrin.cymru.

Mae Mudiad Meithrin yn cyflwyno drwy gynllun Cam wrth Gam, cyrsiau Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cynnig Prentisiaethau, ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru sy'n galluogi unigolion i ennill cymhwyster Lefel 3 Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

**Dysgu Cymraeg Gwent**

Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn gweithio ar draws bwrdeistref sirol Caerffili i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

**Themâu Strategol**

**Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg trwy waith *Dysgu Cymraeg Gwent*:**

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg

**Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy waith *Dysgu Cymraeg Gwent*:**
- Y gweithlu
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Sut mae gwaith *Dysgu Cymraeg Gwent* yn cefnogi'r themâu strategol hyn?

**Denu – agor drysau i ddysgu'r Gymraeg:**
- Marchnata a hyrwyddo
- Partneriaethau strategol
- Diwallu anghenion dysgwyr

**Dysgu - darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg rhagorol:**
- Datblygu'r adnoddau a'r ddarpariaeth
- Datblygu'r gweithlu
- Cyfleoedd dysgu i bawb

**Defnyddio - helpu dysgwyr i ddefnyddio'r iaith:**
- Yn y cartref
- Yn y gymuned
- Yn y gweithle

Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn arbenigo mewn cyrsiau dwys – 4 awr (3 awr o fewn y dosbarth ac 1 awr yn cwblhau gweithgareddau drwy'r rhyngrwyd i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn y dosbarth). Cynigir cwrs dwys pellach – 9 awr yr wythnos i'r rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn gyflym.

Yn ogystal â'r dosbarthiadau rheolaidd a ddarperir gan *Dysgu Cymraeg Gwent,* darperir nifer o weithgareddau dysgu anffurfiol sy'n gyfle i ddysgwyr o bob lefel ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa gymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hwn yn ddatblygiad cynyddol sy'n hanfodol i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith Caerffili i sicrhau bod dysgwyr ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg y maent wedi'i dysgu o fewn y dosbarth a defnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr eraill.

**<u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</u>**

Sefydlwyd y Bwrdd Iechyd ar 1 Hydref 2009 ac mae'n cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi dros 14,000 o staff, ac y mae dwy ran o dair ohonynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion. Mae mwy na 250 o ymgynghorwyr mewn cyfanswm o dros 1000 o feddygon ysbyty a meddyg teulu, 6,000 o nyrsys, bydwragedd, gweithwyr proffesiynol perthynol a gweithwyr cymunedol.

O dan Ddeddf Cymraeg 1993, mae gan y GIG yng Nghymru ddyletswydd statudol i ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r gofynion a osodir ar y Bwrdd Iechyd o dan Safonau Cymraeg, Adran 26 o'r Iaith Gymraeg (Cymru) Mesur 2011.

Mae'r Uned Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys staff sy'n gweithio ar lefel strategol, rheolaethol ac ymarferol ym meysydd polisi, hyfforddiant a datblygiad iaith.

DRAFT

Rydym yn gweithio tuag at gynnig gwasanaethau lle bynnag y bo modd yn yr iaith o ddewis, heb yr angen i'r claf wneud cais penodol amdano. Gelwir hyn yn gwneud 'cynnig gweithredol' o Gymraeg ac mae'n rhan allweddol o Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru: Mwy na geiriau yn unig.

**Heddlu Gwent**

Mae Heddlu Gwent yn gwasanaethu ardal o 600 milltir sgwâr, gan gynnwys tua 182,000 o bobl yn ardal awdurdod lleol Caerffili.

Mae gan y Prif Gwnstabl dri amcan strategol ar gyfer y Gymraeg rhwng 2021 a 2024:

- gwella'r ystod o wasanaethau Cymraeg a gynigiwn ar hyn o bryd i'w gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd gael gwasanaeth yn Gymraeg
- cynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a gyflogir gennym i adlewyrchu canran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau a wasanaethwn yn ardal Gwent
- defnyddio'r wybodaeth a gawn o fonitro a ffynonellau eraill i'n helpu i nodi meysydd lle gallwn wella ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg a sgiliau Cymraeg ein swyddogion a'n staff.

Mae Heddlu Gwent yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn gwella argaeledd a defnydd gwasanaethau Cymraeg yn yr ardal, e.e. drwy ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal yn Gymraeg a hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc am werth sgiliau Cymraeg mewn gwaith plismona.

## 6. Sut y datblygwyd y Cynllun Gweithredu

Datblygwyd y cynllun gweithredu mewn dau wahanol gyfnod:

**Cyfnod 1** – ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid i adolygu'r camau gweithredu drafft ac awgrymu gwelliannau

**Cyfnod 2** – ymgynghoriad ffurfiol i geisio barn trigolion, aelodau etholedig, staff a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r camau gweithredu drafft.

I weld yr Adroddiad Ymgysylltu llawn, yr atodiadau cysylltiedig â Phroffil y Gymraeg ar gyfer bwrdeistref sirol Caerffili, trowch at:

**ATODIAD A – Adroddiad Ymgysylltu Strategaeth y Gymraeg 2022-2027**
**ATODIAD B – Proffil Iaith Gymraeg Bwrdeistref Sirol Caerffili 2021 - Menter Iaith Caerffili**

DRAFT

# 7. Monitro'r Strategaeth

Caiff y Strategaeth ei monitro yn unol â Safon 146.

***Safon 146***
*Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid i chi –*
*(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddo, a*
*(b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol –*
*(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal chi, ac oedran y siaradwyr hynny;*
*(ii) rhestr o'r gweithgareddau yr ydych wedi'u trefnu neu eu hariannu yn ystod y pum mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.*

Bydd y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth yn cael ei fonitro gan Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili ym mhob cyfarfod. Lle bo'n berthnasol, bydd partneriaid yn cydweithio i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni. Cyhoeddir adroddiad ar ddiwedd y Strategaeth yn unol â Safon 146 uchod.

DRAFT

# 8. Monitro'r Strategaeth

**Maes Strategol 1 – Y Teulu**

**Gweledigaeth**
Mwy o Gymareg yn cael ei defnyddio o fewn y cartref.

**Canlyniad**
Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle mae’r Gymraeg yn iaith a siaredir gyda phlant ac ymhlith plant.

**Dangosyddion**
- % y plant mewn dosbarthiadau derbyn ysgol gynradd sy’n dysgu Cymraeg.
- Nifer y digwyddiadau sy’n cael eu rhedeg gan y cyngor a sefydliadau partner ar gyfer y teulu, lle gellir defnyddio Cymraeg fel rhan o weithgaredd teuluol.

**Strategaethau Perthnasol –**
- Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili

**Blaenoriaethau Strategol**
- Ymestyn cyfleoedd anffurfiol rheolaidd er mwyn i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn helpu eu plant i feithrin ac ennill hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Creu neges gyson ar draws y sector, er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu ac yn galluogi plant i gaffael yr iaith Gymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac argaeledd darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd.

**Sefydliadau Partner**
1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

DRAFT

| Gweithred | | Partneriaid | Statws |
|---|---|---|---|
| 1.1<br>(2.2 a 2.7) | Datblygu tudalen we ar wefan y cyngor gyda dolenni i'r holl sefydliadau partner, DEWIS a'r holl adnoddau sydd ar gael. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 1.2 | Sicrhau fod pob cyfle yn cael ei gymryd i sicrhau bod dewis iaith wrth gyfathrebu. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 1.3 | Adolygu, diweddaru a hyrwyddo'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' a'i wneud ar gael mewn fformatau amgen gan gynnwys clipiau fideo, podlediadau, hyrwyddo yn Newsline ac ati. Datblygu yn unol â thargedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 1.4 | Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel y Fforwm Addysg Gymraeg, BIPAB a'r gwasanaeth gofrestru i hyrwyddo'r llyfryn Bod yn Ddwyieithog i rieni newydd mewn pecyn gwybodaeth (digidol). | 1, 2, 9, 13, 14, 21, 22, 23, 26, 28 | 2-3 blwyddyn |
| 1.5 | Newsline i gynnwys erthygl gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob rhifyn sy'n hyrwyddo'r gweithgareddau a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 1.6 | Y cynghorau a'r Fforymau Addysg Gymraeg i weithio mewn partneriaeth ranbarthol i gynllunio gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. | 1-28 | 3-5 blwyddyn |
| 1.7<br>(2.8, 2.9, 2.12, 2.13, 3.8) | Cysylltu â Hyrwyddwyr a Llysgenhadon yr iaith ar draws y sefydliadau partner i sicrhau neges gyson ynghylch addysg gyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 1.8<br>(2.10) | Helpu a chefnogi ysgolion i fodloni gofynion cynlluniau 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' yn enwedig wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Cysylltu gyda chyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac arweinwyr ysgolion y 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'. | 1-28 | 3-5 blwyddyn |
| 1.9 | Gwella cyfathrebiad rhwng y cyngor a sefydliadau partner am y gwaith a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn lleol a'u rhannu'n eang. | 1-28 | 1-2 blwyddyn |
| 1.10<br>(3.7) | Hyrwyddo addysg Gymraeg a gweithgareddau iaith Gymraeg gyda phobl o grwpiau gwarchodedig, megis cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac anabledd. Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid. | 1-28 | 1-2 blwyddyn |

DRAFT

## Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc

### Gweledigaeth

Mae Plant a Phobl Ifanc yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg ac yn deall ei werth fel sgil ym mywyd y dyfodol.  Mae gan Blant a Phobl Ifanc fynediad gwell at ddigwyddiadau a gwasanaethau cymdeithasol yn Gymraeg.

### Canlyniad

Mae plant a phobl ifanc fwyfwy yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd, gwella eu rhagolygon gyrfa posibl a sylweddoli gwerth yr iaith.

### Dangosyddion

- % y disgyblion blwyddyn 6 yn dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.
- % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio ar gyfer pum cymhwyster neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg.
- % y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau dwry gyfrwng y Gymraeg.
- Nifer y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg ar Safon Uwch
- Niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n mynychu gweithgareddau Cymraeg, megis digwyddiadau a drefnwyd gan sefydliadau partner.

### Strategaethau Perthnasol –

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022

### Blaenoriaethau Strategol

- Cefnogi addysgwyr er mwyn iddynt allu hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gweithio gyda phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd â chyswllt â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg.
- Cynyddu'r nifer o blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ac sy'n astudio Cymrage yn yr ysgol uwchradd.
- Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddatblygu i fod yn bencampwyr dros y Gymraeg yn eu cymunedau.

### Sefydliadau Partner

1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasnaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

DRAFT

| Gweithred | | Partneriaid | Statws |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Archwilio cyfleoedd a gwasanaethau cyfredol Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc i adnabod bylchau a meysydd galw ar draws sefydliadau partner. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 2.2 (1.1, 2.7) | Hyrwyddo sefydliadau Cymraeg yn arbennig eu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 2.3 (5.12) | Gweithio gyda phartneriaid i redeg ffair swyddi a'i dilyn gyda sesiynau cyfweld ffug a chodi ymwybyddiaeth o wefannau swyddi gwag, i gynnwys datblygu fideo sy'n hyrwyddo gyrfaoedd yn gadarnhaol trwy gyfrwng y Gymraeg. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 2.4 (2.5, 2.12, 5.8) | Cysylltu â cholegau addysg bellach a phrifysgolion leol i gyfleu negeseuon cadarnhaol i fyfyrwyr i ystyried y Gymraeg fel rhan o'u cyrsiau ac o fewn gyrfaoedd. | 6, 7, 8, 14, 18, 25 | 2-3 blwyddyn |
| 2.5 (2.4, 2.12, 5.8) | Ymgynghori a chreu ymgyrch i ddenu pobl ifanc i ystyried gwaith ieuenctid, gweithgareddau chwaraeon a chelfyddydau fel arweinwyr, gwirfoddolwyr ac ati. Gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden, Gofalu am Gaerffili ac ati. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 2.6 | Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn enwedig i staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gan gynnwys pecyn adnoddau i gefnogi darpariaethau i hyrwyddo iaith a threftadaeth leol e.e. Fforwm Ieuenctid, clybiau ieuenctid, llyfrgelloedd ac ati. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 2.7 (1.1, 2.2) | Datblygu tudalen we ar wefan y cyngor a DEWIS gyda dolenni i'r holl sefydliadau partner a'r holl adnoddau sydd ar gael. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 2.8 (1.7, 2.9, 2.12, 2.13, 3.8) | Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu llyfr a straeon digidol y gellir eu defnyddio fel adnoddau i hyrwyddo addysg gyfrwng Cymraeg yn gadarnhaol. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 2.9 (1.7, 2.8, 2.12, 2.13, 3.8) | Cysylltu â Hyrwyddwyr a Llysgenhadon yr iaith ar draws y swfydliadau partner i sicrhau neges gyson ynghylch addysg gyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 2.10 (1.8) | Helpu a chefnogi ysgolion i fodloni gofynion cynlluniau ‘Siarter Iaith’ a ‘Cymraeg Campus’ yn enwedig wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Cysylltu gyda chyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac arweinwyr ysgolion y ‘Siarter Iaith’ a ‘Cymraeg Campus’. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 2.11 | Sicrhau bod athrawon o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu cynrychioli ar Fforwm Iaith y Sir a’r Fforwm Cymraeg mewn Addysg. | 2, 21, 24 | 1-2 flwyddyn |
| 2.12 (1.7, 2.8, 2.9, 2.13, 3.8) | Gweithio’n rhanbarthol i ddatblygu gwahanol ddulliau o gyfathrebu gwybodaeth i bobl ifanc, gan gynnwys podlediadau, clipiau fideo, cyfryngau cymdeithasol ac ati. i hybu negeseuon positif allweddol, yn enwedig i flynyddoedd ysgol 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 ac addysg bellach. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 2.13 (1.7, 2.8, 2.9, 2.12, 5.8) | Gweithio’n rhanbarthol i ddatblygu astudiaethau achos i'w defnyddio i hyrwyddo gyrfaoedd a chyfleoedd trwy’r Gymraeg, gan gynnwys rhai ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd wedi rhoi eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |

DRAFT

**Maes Strategol 3 – Cymunedau**

**Gweledigaeth**
Grwpiau cymunedol a busnesau yn cynyddu ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd.

**Canlyniad**
Cefnogi grwpiau cymunedol a busnesau a helpu nhw i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg o fewn eu cymunedau.

**Dangosyddion**
- Nifer y gweithgareddau Cymraeg a drefnir ac a gynhaliwyd o fewn cymunedau ar draws y fwrdeistref sirol.
- Nifer o bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau Cymraeg hynny.

**Strategaethau Perthnasol –**
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022

**Blaenoriaethau Strategol**
- Cefnogi gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg presennol a rhannu arfer da.
- Cefnogi grwpiau cymunedol i brif-ffrydio defnydd o'r iaith Gymraeg a chynnig y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith.
- Darparu cymorth penodol i fentrau cymunedol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- Grymuso preswylwyr a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg pan fydd y gwasanaeth ar gael.

**Sefydliadau Partner**
1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasnaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

DRAFT

| Gweithred | | Partneriaid | Statws |
|---|---|---|---|
| 3.1 (3.2, 4.1, 4.6, 4.9, 5.1) | Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o fewn meysydd gwasanaeth ac ar draws sefydliadau partner yn gwisgo llinynnau gwddf a neu fathodynnau priodol sy'n dangos eu sgil ac i annog y cyhoedd i siarad Cymraeg wrth gyrchu gwasanaethau. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.2 (3.1, 4.1, 4.6, 4.9, 5.1) | Annog a chefnogi busnesau lleol i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys dosbarthu a hyrwyddo arddangos arwyddion, bathodynnau neu linynnau Iaith Gwaith i annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i fynd ati i gyrchu gwasanaethau trwy'r Gymraeg. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.3 (4.11) | Creu adnodd ac Ap sy'n rhestru'r holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy gyfrwng Cymraeg er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar draws bywyd cymunedol, gan gynnwys wasanaethau'r cyngor. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 3.4 | Y cyngor a'r sefydliadau partner yn cefnogi a hyrwyddo datblygiad Ffiliffest, gŵyl flynyddol Menter Iaith Caerffili, sy'n dathlu'r Gymraeg a threftadaeth leol. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.5 (4.3, 4.4) | Sicrhau bod rhaglenni digwyddiadau cymunedol Cyngor Caerffili yn cynnwys gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu cyfleoedd lle bo angen. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.6 | Datblygu Cymunedau Dwyieithog Cyfeillgar - cysylltu ag ysgolion, llyfrgelloedd, busnesau lleol a Helo Blod. | 1-28 | 3-5 blwyddyn |
| 3.7 (1.10) | Hyrwyddo addysg Gymraeg a gweithgareddau iaith Gymraeg gyda phobl o grwpiau gwarchodedig, megis cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac anabledd. Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.8 (1.7, 2.8, 2.9, 2.12, 2.13) | Gweithio'n rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth rhieni o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sefydliadau partner i gefnogi eu cynnydd gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. Datblygu Digwyddiad 'y Glas' a phecyn gwybodaeth i rieni sy'n anfon eu plant i ysgol Gymraeg am y tro cyntaf. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.9 | Gweithio'n rhanbarthol i fynd ati i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gymraeg, gan gynnwys pam ein bod yn gwneud hynny, hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn nwyddau a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a byw bywyd bob dydd trwy'r Gymraeg. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.10 | Gweithio gyda Chlwb Busnes Caerffili i godi ymwybyddiaeth busnesau lleol o'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael iddynt i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. | 1, 5, 6, 7, 8, 20, 21, 23, 25, 28 | 1-2 flwyddyn |
| 3.11 | Y Cyngor, ei wasanaethau a gomisiynir a sefydliadau partner perthnasol i hyrwyddo'r defnydd o'r cynnig gweithredol. | 1, 2, 3, 13, 15, 16, 17, 23 | 1-2 flwyddyn |

DRAFT

**Maes Strategol 4 – Gwasanaethau Cymraeg**

**Gweledigaeth**
Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili.

**Canlyniad**

- Mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i'r cyhoedd.
- Mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae grwpiau cymorth iaith Gymraeg wedi'u cynnwys mewn cyfeiriaduron a grpwiau cymunedol a gwirfoddol.
- Mae'r Gymraeg wedi'i hintegreiddio mewn asesiadau effaith a threfniadau cydweithredu.

**Dangosyddion**

- Nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n cael eu trefnu a'u cynnal mewn cymunedau ledled y fwrdeistref sirol.
- Nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau Cymraeg hynny.
- Nifer o staff sy'n gallu darparu gwasanaethu Cymraeg i'r cyhoedd yn unol â Safonau 127 a 151
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd, a'r canlyniadau iddynt, o ran argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn unol â Safon 147.

**Strategaethau Perthnasol –**

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022

**Blaenoriaethau Strategol**

- Y Safonau perthnasol yn cael eu gweithredu.
- Mae uwch reolwyr y cyngor yn dangos ymrwymiad cryf i'r Gymraeg ac yn deall eu bylchau sgiliau.
- Defnyddio'r Gymraeg mewn trefniadau cydweithredu, a dogfennau contractio a chomisiynu 3ydd parti.
- Dosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y cyngor a sefydliadau partner.

**Sefydliadau Partner**

1. B I Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasnaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

DRAFT

| Gweithred | | Partneriaid | Statws |
|---|---|---|---|
| 4.1<br>(3.1, 3.2, 4.6, 4.9, 5.1) | Annog pob maes gwasanaeth o fewn y cyngor i ddefnyddio llinynnau gwddf a bathodynnau Iaith Gwaith (Safon 68) er mwyn hysbysu defnyddwyr gwasanaethau bod gwasanaeth Cymareg ar gael. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.2 | Gwella darpariaeth gwasanaeth yn dilyn adborth neu gwynion a dderbyniwyd. | 23 | 2-3 blwyddyn |
| 4.3<br>(3.5 & 4.4) | Y cyngor i fapio yr holl gyllid derbyniwyd gan Lywodraeth Cymnru a phartneriaid allanol i ddarparu gweithgardedau (Holiday Hunger Club, Haf o Hwyl ac ati.) a mapio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | 2, 15, 16, 17, 23 | 1-2 flwyddyn |
| 4.4<br>(3.5 & 4.3) | Wrth gynllunio gweithgareddau, dylid ystyried y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn lle bo angen. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.5 | Pob maes gwasanaeth y cyngor i logio/cofnodi manylion pan fydd aelod o'r cyhoedd yn nodi ei fod yn dymuno i'w holl alwadau ffôn gael eu cynnal trwy gyfrwng Cymraeg (Safon 21). | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 4.6<br>(3.1, 3.2, 4.1, 4.9, 5.1) | Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn cwrdd â gofynion y cynnig cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o'r gallu i gysylltu â'r awdurdod lleol yn Gymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy gyfathrebiaeth ysgrifenedig. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.7 | Gwella gwaith partneriaeth rhanbarthol rhwng meysydd gwasanaeth y cyngor a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.8 | Sefydliadau partner a'r cyngor i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo gwerth y Gymraeg. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.9<br>(3.1, 3.2, 4.1, 4.6, 5.1) | Annog busnesau a'r sector gwirfoddol i ddefnyddio bathodynnau a llinynnau gwddf Iaith Gwaith ac i ddatblygu delwedd ddwyieithog. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.10 | Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu ymgyrch ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg presennol yr holl sefydliadau partner e.e. llinellau ffôn, peiriannau hunanwasanaeth ac ati. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 4.11<br>(3.3) | Creu adnodd ac Ap sy'n rhestru'r holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy gyfrwng Cymraeg er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar draws bywyd cymunedol, gan gynnwys wasanaethau'r cyngor. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 4.12<br>(5.9) | Y cyngor a sefydliadau partner i gynnal archwiliad sgiliau ieithyddol o'u staff i ddeall pa allu sy'n bodoli gan ddefnyddio lefelau ALTE. Cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth pe bai unrhyw fylchau yn cael eu nodi. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 4.13 | Ymgorffori camau gweithredu yn Asesiad Perfformiad Corfforaethol (CAP) ac Asesiadau Perfformiad Cyfadrannau (DPAs) y Cyngor. | 23 | 1-2 flwyddyn |

DRAFT

**Maes Strategol 5 – Y Gweithle**

**Gweledigaeth**
Cynyddu’r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

**Canlyniad**
Nifer a chanran cynyddol uwch o’r gweithlu yn defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

**Dangosyddion**
- Y nifer o staff a gyflogir gan bartneriaid sy’n defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.
- Y nifer o staff sy’n dysgu Cymraeg.

**Strategaethau Perthnasol –**
- Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili

**Blaenoriaethau Strategol**
- Cynyddu sgiliau ac ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ymhlith rheolwyr lleol.
- Cynyddu'r wybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff sy'n gweithio o fewn y cyngor a sefydliadau partner.
- Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil wrth recriwtio, ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am swyddi a chyflogaeth.
- Galluogi a chefnogi staff rhugl a staff sy'n dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

**Sefydliadau Partner**
1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

DRAFT

| Gweithred | | Partneriaid | Statws |
|---|---|---|---|
| 5.1 (3.1, 3.2, 4.6, 4.9, 5.1) | Cefnogi ac annog staff y cyngor sy'n siarad i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle. Datblygu grŵp staff yr Iaith Gymraeg i gefnogi hyn, gweithio mewn partneriaeth. | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 5.2 | Sicrhau bod y Cynllun Cydnabod Staff y cyngor yn cynnwys categorïau iaith Gymraeg. | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 5.3 | Gweithio i newid y diwylliant mewnol a derbyniad y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Cefnogaeth gyda chodi ymwybyddiaeth a chyfleoedd hyfforddi. | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 5.4 | Sefydlu hyrwyddo'r Gymraeg fel amcan cydnabyddedig i reolwyr fel eu bod yn gallu darparu tystiolaeth o'r gwaith a wneir i gynyddu staff sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 5.5 | Sicrhau fod hyfforddiant Cymraeg priodol ar gael i staff ddysgu Cymraeg o'r lefel sylfaenol i lefel uwch / hyfedredd.  Targedu gwasanaethau rheng flaen. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.6 | Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chynnwys fel rhan o unrhyw broses anwytho ar gyfer dechreuwyr newydd. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.7 | Datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i gefnogi ymrwymiad y cyngor i'r Gymraeg ac at weithredu'r Safonau. | 23 | 2-3 blwyddyn |
| 5.8 (2.4, 2.5, 2.13) | Hyrwyddo'r cyfleoedd i ddilyn gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg fel partneriaeth o sefydliadau. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.9 (4.12) | Y cyngor a sefydliadau partner i gynnal archwiliad sgiliau ieithyddol o'u staff i ddeall pa allu sy'n bodoli gan ddefnyddio lefelau ALTE. Cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth pe bai unrhyw fylchau yn cael eu nodi. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.10 | Sefydliadau partner i fonitro faint o swyddi Cymraeg Hanfodol sydd ganddyn nhw, natur y swyddi a sut maen nhw'n cael eu llenwi ar hyn o bryd. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.11 | Sefydliadau partner i fonitro faint ohonynt sy'n darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i staff ar hyn o bryd a sut y darperir yr hyfforddiant hwnnw. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.12 (2.3) | Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd o gamau gweithredu 5.10 a 5.11, gweithio gyda sefydliadau partner i redeg ffair swyddi a'i dilyn gyda sesiynau cyfweld ffug a chodi ymwybyddiaeth o wefannau swyddi gwag. | 1-28 | 2-3 blwyddyn |
| 5.13 | Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu canllaw arfer da ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol e.e. cyfarchion dwyieithog ar ddechrau cyfarfodydd ac ati. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |
| 5.14 | Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu cyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn sefyllfa anffurfiol, megis caffi cinio, boreau coffi ac ti | 1-28 | 2-3 blwyddyn |

DRAFT

**Maes Strategol 6 – Seilwaith (Polisïau ac Arferion)**

**Gweledigaeth**
Bod sefydliadau a gwasanaethau yn integreiddio'r Gymraeg i holl bolisïau a gweithgareddau.

**Canlyniad**
Mae'r iaith Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n briodol mewn polisïau a strategaethau'r cyngor a'r holl bartneriaid.

**Dangosyddion**
- % a nifer y polisïau sydd wedi eu hasesu yn unol â gofynion Safonau 88-90.

**Strategaethau Perthnasol –**
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Nodyn Cyngor Technegol 20 Llywodraeth Cymru: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg 2013

**Blaenoriaethau Strategol**
- Sicrhau bod y prosesau asesu effaith yn ystyried materion iaith Gymraeg yn unol â Safonau 88-90.
- Sicrhau bod arferion datblygu polisi'r cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Creu Polisi perthnasol.
- Sicrhau y cynhelir adolygiad o'r Strategaeth hon ar ôl 5 mlynedd fel sy'n ofynnol o dan Safon 146.

**Sefydliadau Partner**
1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gweasant Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

DRAFT

| Gweithred | | Partneriaid | Statws |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Sefydlu'r Gymraeg fel rhan annatod o weithdrefnau/ymarferion ymgynghori (fel elfen i'w hystyried yn ogystal â'r mudiadau sy'n rhan o'r ymgynghoriad). | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 6.2 | Sicrhau bod pob Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg (Adran 7 AEI). | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 6.3 | Sicrhau fod cynigion wedi'u datblygu fel bod effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar<br>(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (Adran 7a AEI). | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 6.4 | Canfod y goblygiadau Cymraeg fel rhan annatod o gynllunio datblygiadau o ran ehangu tai ac addysg, yn enwedig o ran lleoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg. | 23 | 1-2 flwyddyn |
| 6.5 | Annog partneriaid ehangach i sicrhau bod y Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygu ac asesu polisïau ac arferion arfaethedig. | 1-28 | 1-2 flwyddyn |

DRAFT